**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 19 Tachwedd 2019 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Martin Jones, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Clifford Williams, Iola Parry, Beca Brown, Hefin Jones, Cemlyn Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Haf Williams

**Clerc:** Meirion Jones

**515. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb

**516. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**517. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**518. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Hydref 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**519. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod nifer o faterion ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heno

**520. I gadarnhau cofnodion o gyfarfod arbennig o'r cyngor cymuned a gynhaliwyd Nos Fawrth 12 o Dachwedd 2019.**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**521. I drafod unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion**

Nodwyd fod nifer o faterion ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heno

**522. I dderbyn adroddiad yn dilyn cyfarfod o bwyllgor y fynwent a gynhaliwyd Nos Fercher 13 o Dachwedd 2019**

Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar gyfer cario allan asesiad risg o'r fynwent. Eglurodd fod cynllun yn ei le a'r bwriad oedd i gario allan asesiad risg bob chwarter ac

fod yr asesiad risg cyntaf wedi ei drefnu ar gyfer 9:00 yn ar 30ain o Dachwedd 2019.

Adroddwyd fod y pwyllgor yn parhau i edrych ar beth gellir ei wneud gyda'r cerrig beddi sydd wedi eu rhoi i orffwys ac ein bod yn edrych fewn i'r oblygiadau o ddefnyddio math o lud arbennig. Mae'r clerc yn y broses o gysylltu a'n cwmni yswiriant i holi eu safbwynt hwy ac hefyd awgrymiadau'r corff ICCM a BRAMM.

Nodwyd fod y llwybrau newydd wedi eu cwblhau ac fod y gwaith i'w ganmol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**525. I dderbyn adroddiad yn dilyn cyfarfod o bwyllgor cyllid a gynhaliwyd Nos Iau 14 o Dachwedd 2019**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid eu bod wedi cyfarfod ar 14 o Dachwedd 2019. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:-

a) Adroddiad yr archwiliwr allanol (BDO) wedi ei dderbyn ac adroddwyd nad oedd dim i'w ddod i sylw'r cyngor.
b) Fod y pwyllgor wedi adolygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
c) Fod y gytundeb i dorri gwair yn y meysydd chwarae, y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus yn dod i ben eleni ac fod yn clerc yn y broses o greu manylion gwaith a bydd yn mynd allan i dendr, gyda dyddiad cau o 17 Ionawr 2020.
d) Nodwyd fod nifer yr aelodau ar y pwyllgor yn isel ac anogir rhywun fyddai a diddordeb ymuno a'r pwyllgor .

Commented [MJ1]:

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**526. I dderbyn adroddiad yr archwiliwr allanol (BDO) ar gyfer 2018 / 2019**

Nodwyd fel uchod am adroddiad yr archwiliwr allanol

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a diolch i'r Clerc am ei waith

**527. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ar gyfarfod llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Hwn i'w ohirio hyd y cyfarfod nesaf

**528. I dderbyn adroddiad / diweddariad gan y pwyllgor hamdden a mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden, eu bod wedi cyfarfod a cynrychiolydd o gwmni G L Jones ar gyfer gweld pa offer oedd ar gael i greu campfa tu allan ar gae chwarae Allt Goch,

Cwm y Glo. Trafodwyd nifer o opsiynau ac roedd y cynrychiolydd am gysylltu a'r clerc gyda'r manylion.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**529. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Addysg**

Dim ond codi ymwybyddiaeth fod y Cyngor Sir yn gwneud arolwg o'r darpariaeth addysg ôl 16 yn y Sir, mae llawer opsiynau. Yr Awdurdod addysg yn adrodd yn ôl ar lle maent wedi cyrraedd erbyn hyn i'r Penaethiaid a Cadeiryddion y cyrff Llywodraethu yn mis Tachwedd.

**Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Ymateb Cyngor Gwynedd wedi mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru yn gresynu fod ddim mwy o sylw wedi cael ei roi i dyfiant economaidd yn gogledd Gorllewin y Sir, yn ogystal a diffyg sylw i'r iaith Gymraeg. Hefyd dim sôn am wella y cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd.

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Llythyrau dal heb fynd allan. Y cyngor wedi cyfarfod hefo Menter Fachwen er mwyn cadarnhau eu bod yn fodlon derbyn cymal yn cyfeirio at ddefnydd cymunedol. Roedd MF yn fodlon. Cyngor wedi gofyn am gadarnhad fod y Cyngor Cymuned yn fodlon rhoi fyny y les.

**Cynllun Dol Afon**

Tipyn bach gwell newyddion ar y cynllun osgoi llifogydd yn Dol Afon, y Cyngor Sir a Cymdeithas Tai Adra wedi cytuno ar gyd ariannu y cynllun, ac erbyn hyn wedi cael cytundeb gan Scottish Power yn dweud cyn belled a bod "stay" ychwanegol yn cael ei osod ar y polyn y byddant yn hapus. Felly y gobaith yw y bydd y gwaith yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol nesaf, gyda cymorth grant.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**530. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Cael gwared â rhai ffonau talu cyhoeddus - Y ciosg yn y Sgwâr, Llanrug**

Ar hyn o bryd mae BT yn y cyfnod ymgynghori ynglŷn â chael gwared â 36 o ffonau talu cyhoeddus yn yr ardal. Mae'r ciosg yn y sgwâr yn Llanrug yn un ohonyn nhw. Rwyf wedi gwrthwynebu'r cynnig hwn am y rhesymau canlynol:

Y Sgwâr yn Llanrug yw canol y pentref. Mae 1000 o blant yn pasio trwyddo bob dydd i'r ddwy ysgol gyfagos. Gall croesi'r sgwâr fod yn heriol gan ei fod yn gyffordd eithaf peryglus i gerddwyr a cherbydau / traffig. Felly, gallai damwain ddigwydd yno ar unrhyw adeg. Mae'n hanfodol, felly, cael ffôn cyhoeddus gerllaw rhag ofn y bydd digwyddiad o'r fath yn digwydd.

Mae'r sgwâr hefyd wedi'i ffinio â dau ddwsin o fyngalos ar gyfer yr henoed a phobl gyda anableddau corfforol. Mae'r bobl hyn yn siopa yn y SPAR yn y sgwâr. Mae llawer yn cael anhawster cerdded ar draws y sgwâr ac, unwaith eto, mae'n eithaf posibl i rywun faglu neu'n waeth. Ar wal y siop mae diffibriliwr wedi'i osod; hyn rhag ofn i rywun gael ei daro gan ataliad ar y galon. Wrth gwrs, nid yw'r gymuned yn mesur llwyddiant y diffibriliwr trwy ofyn pa mor aml y mae'n cael ei ddefnyddio. Mae yno ar gyfer argyfyngau. Felly hefyd y dylai fod gyda'r ffôn talu cyhoeddus.

**Glanhau cwteri**

Mae'r gang sy'n clirio cwteri stryd wedi bod yn weithgar yn Llanrug yn ddiweddar. Mae'n dda gwybod bod Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol unwaith efo'r math hwn o waith. Os oes unrhyw un yn gwybod am gwter problemus, gadewch i mi wybod.

**Sul y Cofio**

Unwaith eto eleni roedd yn anrhydedd gosod torch, ar ran Cyngor Gwynedd, er cof am y rhai a gollodd eu bywydau yn nau ryfel byd y ganrif ddiwethaf a gwrthdaro eraill. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn y Sefydliad Coffa gyda'r Parch. Marcus Robinson yn arwain ac aelodau Band Llanrug yn darparu'r gerddoriaeth. Roedd yn dda gweld pobl ifanc yn bresennol yn cynrychioli'r Clwb Ieuenctid, ynghyd â chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned, y Sefydliad Coffa a'r gymuned ehangach.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**531. I ystyried cais am gymorth ariannol gan unigolion (manylion wedi eu amgáu gyda'r agenda)**

Adroddwyd fod dau gais am gymorth ariannol wedi dod gan unigolion a oedd yn mynd dramor am wahanol resymau. Mae'r aelodau eisoes wedi cael copi o'r ceisiadau.

Nodwyd fod rheolau grantiau'r cyngor yn eu atal rhag gwneud cyfraniad i unigolion ac felly ni fuasai'r cyngor yn gallu cyfrannu.

**Penderfynwyd:**

a) Peidio a chyfrannu oherwydd byddai rhoi cyfraniad yn mynd yn groes i bolisïau'r cyngor ar grantiau ac felly byddai cyfraniad yn cael eu ystyried yn 'ultra vires'.
b) Y Clerc i hysbysu'r penderfyniad ac i ddymuno'n dda iddynt ar eu taith

**532. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes, fod y clwb ieuenctid yn mynd yn dda gyda tua 40 o aelodau yn troi fyny bob wythnos. Adroddwyd ymhellach fod rhai yn cychwyn snwcer yr wythnos nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**533. Ceisiadau Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0973/23/MG

**Lleoliad y Safle:** Ty'r Ysgol, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AL

**Dyddiad Cofrestru:** 25/10/2019

**Math o Gais:** Materion a gadwyd yn ôl

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi 2 dy newydd a mynedfa (cais materion a godwyd yn nol o dan ganiatâd cynllunio C16/1108/23/AM)

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim sylw i'w wneud am y cais yma

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/1035/23/AC

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Lleoliad y Safle:** Pen Rallt, Cwm-y-glo, Caernarfon, LL554DU

**Dyddiad Cofrestru:** 04/11/2019

**Math o Gais:** Rhyddhau Amodau

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Cais i ryddhau amodau 3 (cynllun plannu coed), 4 (cydymffurfio gyda Adroddiad Arolwg Cynefin Cam 1) a 6 (cynllun ymlediad gweledol a manylion wal) o ganiatâd cynllunio rhif C18/0095/23/LL

**Penderfynwyd:** Dim sylw i'w wneud am y cais yma

**534. I ystyried adroddiad ar Oblygiadau Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Cheisiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 ar Gyngor Cymuned Llanrug (adroddiad wedi ei gylchredeg)**

Adroddwyd gan y Clerc ei fod yn angenrheidiol i'r cyngor ystyried ei oblygiadau oddi tan y Ddeddfwriaeth uchod. Nodwyd fod adroddiad ar hyn eisoes wedi ei gylchreded i'r aelodau a gofynnir am hawl dirprwyedig i'r Clerc ymdrin a'r mater.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r clerc i ymdrin a'r oblygiadau i sicrhau fod y cyngor yn cydymffurfio a'r gofynion

Daeth y cyfarfod i ben am 19:50

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 Rhagfyr 2019